GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

## Cyd-arolygiad AGGCC/AGIC:Cynllun Gwella

## Ardal:Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr/Awdurdod Lleol Conwy

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2015

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Cwestiwn Allweddol 1** | | | |
| 3 | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn cynllunio a blaenoriaethu adnoddau; yn | Mae'r bwrdd iechyd wedi ymrwymo i sicrhau bod staff a'r holl randdeiliaid yn ymwneud yn llawn | Cyfarwyddwr Iechyd | Mai 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | datblygu rolau, cyfrifoldebau a modelau darparu gwasanaeth clir; ac yn rheoli perfformiad a gwerth am arian ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu. | wrth ddatblygu modelau gofal effeithiol ar gyfer anableddau dysgu. Mae adolygiad o strwythur sefydliadol yr isadran yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Penodwyd Cyfarwyddwr Nyrsio, ac mae'r swydd Cyfarwyddwr Meddygol wedi'i hysbysu ar 26 Chwefror 2016 a chynhelir y cyfweliadau ar gyfer Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ar y 9 a 10 Mawrth.<br><br>Bydd y Cyfarwyddwr Nyrsio yn datblygu ac yn hysbysebu swydd Pennaeth Nyrsio / Nyrs Arwain newydd ar gyfer y Gwasanaeth Anabledd Dysgu. Gofynnir hefyd i dîm arwain yr Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ystyried penodi Cyfarwyddwr Clinigol pwrpasol ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu.<br><br>Bydd y bwrdd iechyd yn comisiynu gwaith i ddatblygu strategaeth benodol ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu. Bydd hwn yn adeiladu ar y gwaith hyd yn hyn yn y datganiad drafft safbwynt cyfredol "Going Forward Together". Caiff arweinydd Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ei nodi i symud ymlaen â'r | Meddwl<br><br>Cyfarwyddwr Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu<br><br>Cyfarwyddwr Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu | Mai 2016<br><br>Mai 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | gwaith hwn, ynghyd â chefnogaeth allanol a fydd yn cael ei chytuno gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru. | | |
| | **Cwestiwn Allweddol 2** | | | |
| 5 | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynllun ar waith ynglŷn â sut y gellir darparu gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion pobl sydd ag anghenion cymhleth ac ymddygiad heriol.<br><br>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff rheng flaen yn teimlo fel pe baent yn gysylltiedig ac yn cymryd rhan yng ngweledigaeth y bwrdd | Bydd Nyrs Arweiniol ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu a datblygu strategaeth benodol ar gyfer anableddau dysgu yn sicrhau bod yr holl grwpiau cleifion yn cael eu hystyried o ran cynllunio ar gyfer y dyfodol ac ymgysylltu â staff rheng flaen, a bydd partneriaid awdurdodau lleol yn rhan annatod o'r broses. Bydd y gwaith cychwynnol (e.e. y ddogfen "Going Forward Together") yn cael ei adolygu gan y Pennaeth Nyrsio / Nyrs Arwain Anableddau Dysgu dros dro, a bydd y gwaith hwn yn cael ei oruchwylio gan y Cyfarwyddwr Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a Chyfarwyddwr Iechyd Meddwl a Gofal Sylfaenol. | Cyfarwyddwr Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu<br><br>*Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl* | Awst 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | iechyd trwy wella trefniadau cyfathrebu a'r llif o wybodaeth. | Mae nodau strategol y bwrdd iechyd yn cydnabod bod ymgysylltiad staff yn sylfaen allweddol er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol. Yn yr isadran, mae prosesau llywodraethu mwy cadarn yn cael eu datblygu, a fydd yn sicrhau bod staff yn chwarae rhan lawn wrth reoli'r busnes o fewn yr isadran ac yn chwarae rhan lawn wrth gynllunio datblygiadau i'r gwasanaeth ac o ran arwain newid. Bydd prosesau cyfathrebu yn cael eu hehangu o fewn yr isadran, drwy broses dwy ffordd a thrwy arweinyddiaeth weledol.<br><br>Mae Cyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn adolygu'r trefniadau llywodraethu clinigol cyfredol, ac o 14 Mawrth 2016 bydd Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn dechrau sy'n benodol i'r Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Bydd y Pennaeth Nyrsio / Arweinydd Nyrsio dros dro arfaethedig yn aelod o'r grŵp hwn i sicrhau bod adroddiadau anabledd dysgu penodol yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd, bod risgiau yn cael eu huwchgyfeirio'n briodol, a bod gweithrediadau a chyfathrebiadau perthnasol yn cael eu dosbarthu i'r gweithle anabledd dysgu ehangach. | Cyfarwyddwr Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu | Mawrth 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | **Cwestiwn Allweddol 3** | | | |
| 7 | Dylai'r bwrdd iechyd nodi uwch-reolwr a enwir cyn gynted ag y bo modd, sy'n gyfrifol am weithio'n agos gyda'r awdurdod er mwyn datblygu dull integredig ar gyfer diwallu anghenion pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr.<br><br>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod systemau TG ar gyfer staff iechyd yn addas i'r diben ac yn cefnogi staff i gyflawni eu swyddi'n effeithiol. | Bydd y datblygiadau arfaethedig yng Nghwestiwn Allweddol 1 uchod yn cefnogi'r broses o symud ymlaen i ddatblygu tîm arwain anableddau dysgu penodol a fydd yn gyfrifol am gynnal a datblygu gwaith partneriaeth effeithiol o fewn y chwe awdurdod lleol. Bydd hwn yn sicrhau bod yr isadran yn bodloni gofynion Rhan 9 Cydweithredu a Phartneriaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn y cyfamser, bydd Rheolwr Cyffredinol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a'r Rheolwr Gwasanaethau Anableddau Dysgu Cymunedol dros dro yn gyfrifol am yr ymgysylltu a datblygu parhaus a'r presenoldeb ar Fwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru.<br><br>Bydd adolygiad o'r materion TG ar draws y gwasanaethau anabledd dysgu yn cael ei gomisiynu'n syth mewn cydweithrediad ag Adran TG a Gwybodeg Prifysgol Betsi Cadwaladr. | Cyfarwyddwr Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu<br><br>Rheolwr Cyffredinol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu<br><br>Rheolwr Cyffredinol | Mawrth 2016<br><br>Mawrth 2016<br><br>Mawrth 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd risgiau a gofynion yn cael eu cyflwyno i dîm arwain yr isadran eu hystyried a'u cynnwys yn y gofrestr risg sefydliadol pan fo hynny'n briodol.<br>Mae'r isadran hefyd wedi'i nodi fel man peilot ar gyfer System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru Gyfan. | Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a Phennaeth RhG a TG<br>Rheolwr Cyffredinol | Parhaus |

**Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:**

**Enw (llythrennau bras):Jenifer French**

**Teitl:** **Cyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu**

**Dyddiad:** 8 Ebrill 2016